PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 15 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Asghar Ali, Carter, Goddard, Jenkins, Kelloway a/ac Lent |

23 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ali Ahmed. Roedd y Cynghorydd Carter wedi rhoi gwybod y byddai'n hwyr i'r cyfarfod.

24 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

25 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

26 : STRATEGAETH ECONOMI'R NOS CAERDYDD 2017-2022 - I DDILYN

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Joe Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, a Stephanie Kendrick-Doyle, Rheolwr Diogelwch Cymunedol i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad. Yn y datganiad hwnnw, dywedodd fod y strategaeth yn nodi sut y byddwn ni, ynghyd â'n partneriaid, yn cydweithio i sicrhau bod economi nos y ddinas yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar nifer o feysydd gwaith llwyddiannus yng Nghaerdydd dros y pymtheg mlynedd ddiwethaf, er enghraifft gwaith yr Athro Shepherd i leihau trosedd yn economi'r nos; mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar reoli economi'r nos, ac nid ar agenda twf ehangach y ddinas – ymdrinnir â hynny ar wahân.

Bydd y strategaeth hon yn gweithio ar y cyd â nifer o ddogfennau eraill, gan gynnwys y strategaeth gerdd ar gyfer y ddinas a fydd yn cael ei chyflwyno maes o law. Bydd y strategaeth yn cael ei chymeradwyo gan y gwahanol bartneriaid ac yna gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ein rhwystro rhag mynd i'r afael â'r cynllun gweithredu a'r prif flaenoriaethau sydd gennym fel partneriaeth; enghraifft o hyn yw'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Cyngor, yr Heddlu a chan partneriaid eraill er mwyn mynd i'r afael â heriau digartrefedd ar y stryd ac amrywiaeth o ymddygiadau gwrthgymdeithasol drwy'r Tasglu amlasiantaeth newydd. Cafodd y strategaeth ei datblygu mewn ymgynghoriad ag amrywiaeth o bartneriaid o bob sector, gan gynnwys For Cardiff (Ardal Gwella Busnes y ddinas) a'r Fforwm Trwyddedigion.

Cafodd Aelodau gyflwyniad am 'Ddarparu Economi’r Nos Diogel a Chroesawgar: Ein Cynllun 2017 – 2022’ ac yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau;

- Cyfeiriodd Aelodau at drafnidiaeth yn y ddinas ac at y problemau a gafwyd yn ystod noswaith gornest Joshua.Gofynnodd Aelodau beth oedd yn cael ei wneud i leihau’r ddibyniaeth ar dacsis a ph’un a fyddai nifer y Swyddogion tacsis yn cael eu cynyddu, ac os felly, sut fyddai hyn yn cael ei ariannu. Nododd Swyddogion y broblem ynghylch y ddarpariaeth drafnidiaeth wrth ddod i Gaerdydd ac wrth adael y ddinas ac ar hyn o bryd, nid yw'r ddarpariaeth yn ddigon, ac roedd hyn yn arwain at bobl yn gorddibynnu ar dacsis.  Ystyriodd y Swyddogion y byddai’r Metro yn helpu gyda hyn. Ychwanegodd Swyddogion fod partneriaid yn gweithio gyda’r Fforwm Tacsis. Mae’r mater o ran y Swyddogion yn eithaf dadleuol. Hynny yw, mae eu gwerth yn amlwg ond mae'r pwysau ar y gyllideb yn golygu nad oes modd eu hariannu'n llawn mwyach.  Roedd yr Ardal Gwella Busnes wedi cytuno i ariannu hanner y cynllun ac roedd trafodaethau’n mynd rhagddynt mewn perthynas â phwyntiau technegol y cytundeb hwn a oedd angen eu datrys. Ystyriodd y Swyddogion y byddai angen am y Swyddogion dros dymor y Nadolig.

- Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau bod y Cabinet yn hollol ymwybodol o’r problemau a brofwyd ar noswaith gornest Joshua ac roeddynt wrthi’n trafod â threnau Arriva.

- Gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth am y cynllun Safe Taxis ar gyfer myfyrwyr a gofynnwyd hefyd pwy sy’n talu am y cynllun hwn.
Eglurodd Swyddogion fod y Brifysgol wedi datblygu cynllun â’r Fforwm Tacsis sy’n golygu nad yw'r myfyrwyr yn talu am y tacsi ar y noson - caiff y ffi ei chofnodi gan y Brifysgol a bydd y myfyrwyr yn talu'n ddiweddarach pan nad ydynt mor agored i niwed.  Dragon Taxis sydd ynghlwm wrth y cynllun ar hyn o bryd, ond roedd trafodaethau’n mynd rhagddynt â’r Fforwm Tacsis i gynnwys cwmnïau tacsis eraill hefyd.

- Gofynnodd Aelodau beth oedd yn cael ei wneud i fynd i’r afael â chysgu ar y stryd.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y strategaeth Cysgwyr ar y Stryd wedi cael ei hanfon at yr holl Aelodau a bod grŵp gorchwyl aml-asiantaeth wedi cael ei sefydlu.  Cafodd Ymgyrch Purple Ash ei sefydlu gan yr Heddlu er mwyn ymdrin ag unigolion yn gofyn am arian mewn modd ymosodol. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai’n anfon briff at yr holl Aelodau cyn y Cyngor ynghylch llwyddiant y Strategaeth Cysgwyr ar y Stryd. Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau mai ond un person a arestiwyd yn ystod Ymgyrch Purple Ash oedd yn berson digartref ar y stryd.

- Trafododd yr Aelodau peth o’r iaith yn y Cynllun Gweithredu ac argymhellwyd defnyddio ‘Gwella’ yn hytrach nag ‘Ystyried’ gan fod angen gweithredu ar rai pethau ar unwaith a byddai hyn yn dangos ymrwymiad i hynny.Roedd Swyddogion yn cytuno â hyn.

- Gofynnodd Aelodau pe bai modd newid yr argraff y mae Caerdydd yn ei rhoi o fod yn gyrchfan partïon plu/stag.  Eglurodd Swyddogion y gallai’r Cyngor, drwy

gydweithio â phartneriaid, wneud cais am Statws Baner Borffor a gafodd ei roi gan Reolwyr Canol Tref mewn perthynas ag amrywiaeth ac ati. Byddai gwneud cais am y statws hwnnw'n dangos lle'r oedd angen gwneud gwelliannau ac yn rhoi'r sail dystiolaeth ymarferol sydd ei hangen i wneud newidiadau. Nodwyd bod y Bae yn fwy cytbwys na Chanol y Ddinas o ran yr hyn sydd i'w gynnig.

- Trafododd Aelodau'r cynllun glanhau strydoedd pwrpasol a gofynnwyd sut yr oedd hyn yn adlewyrchu niferoedd y staff. Eglurodd Swyddogion eu bod yn ehangu'r gwasanaeth y maent eisoes yn ei ddarparu; mae busnesau'n talu am lanhau gwahanol ardaloedd ar adegau penodol.

- Cyfeiriodd Aelodau at y Trosedd ac Anrhefn blaenorol yn Economi'r Nos, a'r Cynlluniau Gweithredu arfaethedig, a gofynnwyd a oedd y Cyngor yn ddigon uchelgeisiol, gan ofyn a fyddai'n gwneud gwahaniaeth go iawn petai'r holl gamau gweithredu'n cael eu cyflawni. Rhoddwyd enghraifft o weithio gyda safleoedd bwyd brys i wella'r gwaith glanhau, a gofynnwyd sut fyddai hyn yn effeithio ar drosedd ac anrhefn petai'n cael ei weithredu. Eglurodd Swyddogion fod tystiolaeth yn dangos bod cyflwr yr amgylchedd yn effeithio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol; mae golwg y safle a'r argraff y mae'n ei rhoi yn effeithio ar sut y mae pobl yn ymddwyn a dyna sut y mae'n cael ei gynnwys yn y cynllun. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y bydd amgylchedd glân a thaclus yn gwella'r cynnig ac yn denu mwy o gydbwysedd o ran pobl, sydd hefyd yn arwain at amgylchedd mwy diogel.

- Gofynnodd Aelodau a oedd cyllid cynaliadwy ar gael i weithredu'r strategaeth. Cytunodd Swyddogion fod hyn yn her barhaus, a bod angen i bartneriaid gytuno iddo ac yna, gyda'i gilydd, ddod i hyd i ffyrdd o'i ariannu. Roedd y cytundeb â'r Ardal Gwella Busnes yn fonws, ond roedd yn bwysig nodi nad oedd yr arian yn ddiddiwedd, ac roedd angen deall yr hyn y bydd partneriaid yn ei wneud.

- Trafododd Aelodau'r arbrawf o ddefnyddio anadlenyddion mewn siopau lleol a gofynnwyd a oedd hyn yn rhoi staff mewn perygl drwy ddigio unigolion/achosi dicter. Nododd yr Aelod Cabinet y mae cyfrifoldeb pawb oedd gwneud y ddinas yn fan ddiogel, nid yn unig y Cyngor; mae dyletswydd ar berchenogion siopau a bariau dros ddiogelwch cwsmeriaid eraill. Mae llawer o welliannau wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys cyflwyno gwydrau plastig, y ganolfan frysbennu ac ati, ac roedd hyn yn ffordd arall o wella diogelwch y ddinas ymhellach. Ychwanegodd Swyddogion fod y cynllun anadlenyddion wedi cael ei hyrwyddo gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac roeddynt yn offer defnyddiol i staff drws a welodd llai o achosion ar y drws ac mae llai o yfed ar drafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i'r arbrawf yn siopau Spar.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 27 : DATBLYGU DARPARIAETH CYFLOGADWYEDD AR DRAWS Y DDINAS AC YMAGWEDD NEWYDD TUAG AT ADEILADU CYMUNEDAU GWYDN

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau a Louise Bassett, Arweinydd Tîm Cyflawni Partneriaeth i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad. Yn y datganiad dywedodd fod yr Aelodau wedi mynychu cyfarfodydd ymgynghori cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus; roedd yr Aelod Cabinet yn fodlon ar yr ymatebion a gafwyd o’r ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Wasanaethau Cyflogaeth ac Adeiladu Cymunedau Gwydn, ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Nododd Aelodau mai 15% yn unig o bobl ddi-waith ag ymatebodd i’r arolwg, a gofynnwyd a oedd hyn yn gynrychioladol. Ystyriodd y Swyddogion eu bod yn briodol yn ystadegol, gan eu bod yn cynnwys y rhai ar gontractau dim oriau a’r rhai sy’n gweithio rhan amser.

- Ystyriodd yr Aelodau fod y ddau gwestiwn cyntaf yn eithaf caeedig gan roedd ond dau opsiwn i ddewis o’u plith; nododd y swyddogion eu bod wedi rhoi tipyn o ystyriaeth i hyn, roeddynt yn teimlo bod angen gwybodaeth arnynt am y gwasanaethau presennol felly roedd yn benderfyniad ymwybodol.

- Gofynnodd Aelodau a oeddynt wedi cael rhywfaint o arweiniad gan Lywodraeth Cymru; eglurodd y swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cronfa waddol iddynt, a oedd wedi cael ei chadw’n agored iawn. Roedd llai o arian felly roedd angen dull cwbl newydd ac roedd mapio yn bwysig iawn.

- Ystyriodd Aelodau fod yna ddull newydd mewn perthynas â chymunedau gwydn, ond nid oedd yna strategaeth gydlynol, ac roeddynt yn gobeithio y gallai hyn gael ei adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru mewn sgwrs dwy ffordd.

- Trafododd Aelodau y cymunedau gwydn a nodwyd bod llawer o bobl yn dymuno helpu’r gymuned, ond nid mewn modd rheoli; mae hyn yn rhoi cyfle i roi rhwydwaith cymorth ar waith ar gyfer gwirfoddolwyr, gan adeiladu ar allu pobl a'u hawydd i weithio yn eu cymunedau.

- Mynegodd Aelodau bryder am yr amseru gan nodi bod y projectau Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben ym mis Mawrth 2018 a doedd dim i gymryd drostynt tan 2019/2020. Gofynnwyd sut y byddai hyn yn effeithio ar wasanaethau rhwng y ddau gyfnod. Cytunodd Swyddogion fod yr amseru’n bwynt allweddol ac roedd posibilrwydd y byddai hyn yn anodd ar gyfer rhai sefydliadau. Y ffocws oedd ar ddichonoldeb y sefydliadau yn hytrach na’r projectau penodol. Gan fod gostyngiad anferthol wedi bod mewn cyllid, roedd mapio yn hollbwysig i bennu pa wasanaethau sydd wir yn bodoli. Ychwanegodd Swyddogion y byddent yn edrych i ddarparu cyllid i gynnal sefydliadau mewn perygl yn ystod y bwlch.

- Gofynnodd Aelodau a oedd Swyddogion yn ffyddiog eu bod yn parhau i gael effaith ar ddarpariaeth y gwasanaethau ar gyfer pobl yn y gymuned sy’n agored i niwed. Nododd Swyddogion fod hyn yn rhoi cyfle i sicrhau y gellir

clymu'r gostyngiad mewn cyllid â darparu gwasanaeth statudol mewn modd mwy effeithiol nag yn y gorffennol.

- Gofynnodd Aelodau a fyddai angen cymorth ychwanegol ar staff y Cyngor. Eglurodd Swyddogion y bydd angen gwneud penderfyniad wrth i'r cynigion gael eu cyflwyno, hyn a hyn o gyllid oedd ar gael drwy'r gronfa waddol, ond roedd hi'n rhy gynnar i wybod hynny eto.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 28 : DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL CYMUNEDOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, Ian Wile, Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Tony Young, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a Rebekah Vincent-Newson, Rheolwr Gweithrediadau, Iechyd Meddwl i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad. Yn y datganiad hwnnw dywedodd fod yr adolygiad, a oedd yn cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd, yn bwysig iawn; roedd yn adolygiad o'r system gyfan, gan gynnwys gofal sylfaenol a gwasanaethau nad ydynt yn statudol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod yr ystadegau'n dywyll, yn enwedig o ran ethnigrwydd yn y ddinas. Nodwyd bod y Sefydliad Iechyd Meddwl 2016 yng Nghymru wedi buddsoddi £600m mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl, ac roedd hyn yn fwy nag unrhyw wasanaeth arall yn y GIG. Nodwyd yr effaith ddifrifol a pharhaus y mae Iechyd Meddwl yn ei chael ac y gall dynnu deng mlynedd oddi ar hyd oes rhywun.

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o Achos am Newid y Gwasanaethau Cymunedol – Iechyd Meddwl Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau;

- Gofynnodd Aelodau am fwy o wybodaeth am yr amserlenni ynghlwm wrth weithredu'r newidiadau i'r Gwasanaeth. Rhoddwyd gwybod iddynt ei fod yn nwylo'r Adran Cynllunio Cyfalaf, ond y byddai cam y Fro (yn Ysbyty'r Bari) yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2018. Mae swydd gynorthwyol fel rheolwr project yn barod ar gyfer mis Ionawr 2018, a chafodd aelod presennol o staff ei benodi i'r swydd honno. Dylai'r peilot redeg am o leiaf 9 mis, gyda'r gobaith y byddai'n hirach na hyn ar ôl gwerthuso'r meini prawf llwyddiant.

- Nododd Aelodau mai 65 oedd y categori oed hynaf a gofynnwyd beth oedd y rheswm dros hyn. Dywedwyd wrth Aelodau mai dyma oedd y rheol gyffredinol gan roedd gwasanaethau ar wahân yn y strwythur ar gyfer pobl hŷn a phobl â dementia ac ati.

- Gofynnodd Aelodau faint o welyau iechyd meddwl oedd ar gael yng Nghaerdydd a’r Fro a rhoddwyd gwybod iddynt fod 135 yn Llandochau, 14 yn Park Road a 10 yn Pheonix – y cyfan yn wasanaethau oedolion. Roedd 130 o welyau pobl hŷn.

- Gofynnodd Aelodau a oedd Park View yn Nhrelái dan ystyriaeth a dywedwyd wrthynt fod trafodaethau’n mynd rhagddynt mewn perthynas â’r Hyb Llesiant.

- Roedd Aelodau wedi synnu gan nifer y bobl sy’n cael eu cefnogi yn y gymuned. Gofynnodd Aelodau pa ddewis o'r cynnig Achos am Newid fyddai’r dewis delfrydol. Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau bod angen iddynt fynd am y dewis mwyaf uchelgeisiol o Wasanaethau Cymunedol, gyda chlinig cynorthwyedig a gwell lwybrau ar gyfer triniaethau penodol. Dywedwyd wrth Aelodau fod angen iddo fod yn fuddiol, nid cydleoli a gwneud yr un pethau.

- Nododd Aelodau fod y galw wedi cynyddu pedair gwaith. Ar hyn o bryd, roedd yna adeiladau digon fach i deimlo'n gymunedol. Roedd Aelodau’n pryderu y gallai adeiladau mwy o faint, i ddelio â’r alw, deimlo fel ysbytai, a gallai hyn effeithio ar sut y bydd pobl yn edrych ar y Gwasanaeth.

- Gofynnodd Aelodau os oedd elfen o or-ddiagnosis/atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu o ran lefel honno’r gwasanaeth, a rhoddwyd gwybod iddynt fod angen rhagor o hyfforddiant sylfaenol ar orbryder ac iselder. Byddai hyn yn helpu’r Bwrdd Iechyd i allu delio ag achosion mwy cymhleth.

- Gofynnodd Aelodau am oblygiadau ariannol ar gyfer yr Awdurdod Lleol, a dywedwyd wrthynt y dylai fod rhywfaint o arbedion yn cael eu gwneud o fewn y seilwaith rheoli ym mhob tymor, ond nid oeddynt dan bwysau i wneud hynny. Roedd y ffocws ar wasanaeth cymunedol iach, sy’n rhoi mwy o elfennau cadarnhaol mewn ardaloedd eraill y system.

- Gofynnodd Aelodau a fyddai rhagor o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â’r cyhoedd yn digwydd, a dywedwyd wrthynt y byddai; byddai Achos am Newid yn newid yn bapur ymgysylltu.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

29 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Dyddiad cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yw 6 Rhagfyr 2017 am 4.30pm.